# TONYREFAIL A GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

LLAWDRINIAETH

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Mr Jonathan Griffiths, cyfeilydd corau Tonyrefail, yn mynd i fewn i Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd i gael triniaeth law feddygol. Dymunwn iddo lwyr iachâd ac adferiad buan a'i weld yn ôl eto wrth y piano. Yn siwr bydd nôl yn yr adwy erbyn dathliad Côr Merched Richard Williams o bum mlynedd ar hugain pan gynhelir Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Mae hwn yn garreg filltir bwysig iawn i'r côr ac yn rhagarweiniad i'w taith i Ganada yn ystod y flwyddyn nesaf. Dymuniadau gorau iddynt am y pum mlynedd ar hugain nesaf ac ar eu teithiau dramor.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau hapus iawn i Mr a Mrs Hessey White (mab a merch yng nghyfraith Mr Richard Williams, arweinydd y corau) ar enedigaeth mab, James Christopher ar 21ain o fis Awst. Mae Mrs Hessey White wedi dod yn amlwg iawn fel unawdydd ac wedi teithio dipyn mewn operau a chyngherddau dros y wlad a thramor.

GWELLHAD BUAN

Hyfryd yw gweld fod Mrs Ann Owen, sydd wedi bod o dan driniaeth law-feddygol yn ystod mis Gorffennaf diwethaf, yn gwella yn araf deg ac ar ffyn bagl ar hyn o bryd. Mae'n siwr y bydd yn cael ei rhyddhau o'r rhain o un i un yn fuan iawn, ac fe'i gwelir yn ôl wrth ei gwaith fel athrawes yn yr Ysgol Gymraeg. Mae Ann wedi bod yn gysylltiedig â Tafod Elái ers ei ddechre fel dosbarthydd ac mae'n dal i wneud hynny. Rhwydd hynt a gwellhad buan i un o flodau Ynys Môn.

IS-ETHOLIAD

Trefnwyd is-etholiad ar y 4ydd o Hydref i lenwi'r sedd a adawyd yn wag gan farwolaeth y Cynghorydd Emlyn Brinson y gyfeiriwyd ato yn rhifyn Gorffennaf. Bydd gweddw Mr Brinson, Mrs Mona Brinson yn sefyll fel ymgeisydd annibynnol, Mrs Y. B. Keogh dros Blaid Cymru a dewis y Blaid Lafur yw Mr Glen Evans sydd hefyd â sedd ar Gyngor Cymuned Tonyrefail.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E. June Huws

YSGOL Y PENTREF

Croesawn ddwy athrawes dros dro i'r ysgol, Miss Rhian James a Mrs Hillary Caffrey, ac hefyd Miss Nichola Louise Owen, nyrs feithrin. Y mae'r tair yn yr ysgol oherwydd beichiogrwydd a swyddi newydd athrawon eraill ac hoffem ddymuno'n dda iddynt yn eu swyddi.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON

Sefydlwyd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn ysgol Gwaelod y Garth ar ddiwedd tymor yr Haf. Gobeithir codi arian at yr ysgol ac ar yr un pryd dod a rhieni ac athrawon at ei gilydd yn gymdeithasol. Y gweithgaredd cyntaf fydd disgo'r chwe-degau yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf ar Hydref 20fed am 8.00 pm. Am fwy o fanylion ffoniwch 810149.

CLWB RYGBI'N HELPU'R URDD

Cynhaliwyd Sêl Cist Car yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf ar Fedi'r 23ain. Diolch i'r clwb am eu cefnogaeth i'r fenter hon, Aeth yr elw at Gronfa Apêl yr Eisteddfod.

Gobeithir cynnal disgo Calan Gaeaf i'r plant yn Neuadd y Pentref ar nos Fercher Hydref 31 rhwng 3.30 a 5.30 pm.

TRIP YSGOL SUL CAPEL BETHLEHEM

Aeth trip y Capel i Barc y Deri ger Arberth ar ddydd Sadwrn Medi'r 15fed. Roedd y tywydd yn garedig iawn ac roedd treulio diwrnod mewn llecyn mor hardd yn brofiad hyfryd. Nid felly yw'r ffordd i ddisgrifio bob profiad a gafwyd yno yn ystod y dydd; gwelwyd llawer i wep ofnus yn disgyn o'r "Sky Heap" a digonedd o drowsusau gwlyb ar ôl y "shoot" ddwr. A'r gweinidog? Wel, fe welwyd ef tu allan i'r parc, wn i ddim a fentrodd ymhellach!!

YSGOLION Y TON

Fel mae'n draddodiad yr amser hyn o'r flwyddyn yn ein hysgolion, mae'r plant yn newid ysgol gan adael ysgolion cynradd i fynychu ysgolion cyfun. Mae yna 22 o blant Ysgol Gymraeg y Ton wedi mynd i Lanhari ac un i Ysgol Gyfun y Cymer. Dymuniadau gorau iddynt. Mae llawer o gyn-ddisgyblion yr ysgol Gymraeg wedi eistedd arholiadau TGAU ac mae'r canlyniadau yn ganmoladwy. Mae'n siwr fod hyn yn wir am ysgolion Saesneg yr ardal plant o ysgolion Cwmlai, Trefyrug, Tonyrefail a Gilfach Goch sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Tonyrefail a'r canlyniadau yno hefyd wedi bod yn dda iawn.

YMDDEOLIAD

Ar ddiwedd y tymor diwethaf ymddeolodd Mrs Jean Thomas fel Prif Athrawes Ysgol Babanod Saesneg Tonyrefail ar ôl cyfnod hir o wasanaeth. Dechreuodd ar ei gyrfa yn Llundain a daeth yn ôl i Donyrefail fel athrawes ysgol babanod ac yna i'r ysgol gynradd, a threuliodd 17 o flynyddoedd yn yr Ysgol Babanod ar ôl hynny. Mae'n aelod ffyddlon yng Nghapel y Ton. Mae'n byw ar Heol Collena gyda'i gŵr Idwal a'r meibion Rhys, Aled a Gareth. Rhwydd hynt iddi hi a'i theulu yn y dyfodol a iechyd da.

ZANDRA RHODES NEU SANDRA ROSE?

Mae'r enwau'n debyg onid ydynt? Ond mae'r ddwy yn debyg mewn ffordd arall hefyd! A welsoch chi'r wisg hyfryd a gynlluniodd Sandra Rose, Lorien Cottage ar gyfer y wobr newydd i gyfansoddwr yr Eisteddfod yng Nghwm Rhymni? Llongyfarchiadau i Sandra, sydd yn bennaeth Adran Tecstiliau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni am greu gwisg mor chwaethus ac urddasol.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Ann Dwynwen Davies

CYDYMDEIMLAD

Dymunwn gydymdeimlo a Mrs Gwladys Berry, Heol y Mynydd, wedi colli ei mab ieuengaf yn frawychus o sydyn yn ystod yr haf.

Ein cydymdeimlad hefyd gyda Ann ac Emlyn Davies a'r teulu ar golli tad Ann yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN

Mae'r ysgol feithrin yn cwrdd bob bore'r wythnos o 9.15 i 11.45 yn Neuadd y Pentref, Pentyrch. Mrs Helen Jones yw'r athrawes newydd a dechreuwyd y tymor gyda deg o blant. Croeso i rieni newydd gysylltu â Gwyneth Lewis 891080